Tania ap Siôn BA (Rhydychen) MA (Rhydychen) MA (Cymru) TAR (Cymru)

Cefndir

Mae Tania ap Siôn yn Gyfarwyddwr Gweithredol Canolfan y Santes Fair ac yn Uwch Ymchwilydd Cynorthwyol yn Uned Ymchwil Crefyddau ac Addysg, Prifysgol Warwick.

Cyn ei phenodiad cyfredol, roedd Tania'n ddarlithydd mewn Addysg Grefyddol yn Ysgol Addysg Grefyddol, Prifysgol Bangor, gan gyfrannu at y rhaglenni BAdd cynradd a TAR trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, yn ogystal â chyd gysylltu'r rhaglen TAR uwchradd. Yn ogystal, bu'n ddarlithydd rhan amser mewn Crefyddau'r Byd yn Ysgol Ddiwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol Prifysgol Bangor gan addysgu Islam, Bwdhaeth, Hindŵaeth a Sikhaeth i israddedigion. Hyd at fis Gorffennaf 2008, roedd yn Swyddog Project yn y Ganolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol a golygydd y cylchgrawn dwyieithog *Newyddion AG.*

Mae Tania'n aelod o nifer o sefydliadau, gan gynnwys

- Cynghorau Sefydlog Ymgynghorol ar gyfer Addysg Grefyddol Cymru (CYSAGau Cymru).
- Y Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol
- Mudiad Addysg Grefyddol Cymru
- Cynghorau Sefydlog Ymgynghorol ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAGau) Awdurdodau Addysg Lleol Wrecsam, Sir Ddinbych a Chonwy.

Hi hefyd yw golygydd *AGweddau***,** cylchgrawn arlein di-dâl ar gyfer y rhai sy'n ymwneud ag AG yn broffesiynol, Ysgrifennydd y Rhwydwaith Teip Seicolegol a'r Ffydd Gristnogol ac Ysgrifennydd CYSAGau Cymru.

Adnoddau addysgol

Tania oedd rheolwraig a chyd awdur y gyfres ddwyieithog ar gyfer cyfnod allweddol 2 *Cyfres Crefyddau'r Byd Heddiw* gyda'r Athro Leslie J Francis a bu'n cydweithio â NGfL Cymru i gynhyrchu adnodd dwyieithog electronaidd rhyngweithiol i ategu'r llyfr

stori, *Gwasanaeth Priodas* yn y *Gyfres Mannau Cristnogol Arbennig* ar gyfer disgyblion Cyfnod Sylfaen (plant 3-7).

Ymchwil

Mae ei diddordebau ymchwil cyfredol yn cynnwys gweddïau pobl gyffredin, profiad crefyddol ymhlith disgyblion chweched dosbarth ac ysgolion ffydd gan ddefnyddio'n bennaf ddulliau ymchwil ansoddol. Cyflwynodd bapurau mewn nifer o gynadleddau Rhyngwladol gan gynnwys:

- Y Gymdeithas Ryngwladol ar gyfer Ymchwil Empeiraidd mewn Diwinyddiaeth (ISERT – International Society of Empirical Research in Theology), Prifysgol Bangor, Ebrill 2006
- Seminar Sefydliad Ymchwil Mater Dei, Dulyn, Ebrill 2006
- Cynhadledd Flynyddol Cymdeithas Seicolegol yr Iwerddon, Mai 2006
- Cynhadledd ar Grefydd Ymhlyg, Denton Hall, Mai 2007
- Cynhadledd Ymchwil mewn Crefydd ac Addysg, Prifysgol Rhydychen, Ebrill 2008
- Cymdeithas Ryngwladol Ymchwil Empeiraidd mewn Diwinyddiaeth, Wuerzburg, Ebrill 2008

Mae rhestr cyhoeddiadau Tania'n cynnwys:

L.J.Francis, T. ap Siôn, C.A. Lewis (2006), M. Robbins, P. Barnes, 'Attitude toward Christianity and religious experience: replication among 16- to 18-year-old adolescents in Northern Ireland', *Research in Education*, volume 76, pp56-61.

T. ap Siôn (2006), 'Looking for signs of the presence of God in Northern Ireland: religious experience among Catholic and Protestant sixth-form pupils', *Archiv für Religionspsychologie*, volume 28, pp349-370.

T. ap Siôn (2007), 'Listening to prayers: an analysis of prayers left in a country church in rural England', *Archiv für Religionspsychologie*, volume 29, pp199-226.

T. ap Siôn, Leslie J Francis, and Sylvia Baker (2007), 'Experiencing education in the new Christian schools in the UK: listening to the male graduates', *Journal of Beliefs and Values*, volume 28 (1), pp1-15.

L.J. Francis, M. Robbins, C.A. Lewis, P. Barnes, T. ap Siôn (2007), 'Attitude toward Christianity among secondary school pupils in Northern Ireland: shifts in denominational differences,' *Educational Research*, volume 49 (4), pp 431-436.

T. ap Siôn (2008), 'Distinguishing between intention, reference, and objective in an analysis of prayer requests for health and well-being: eavesdropping from the rural vestry', *Mental Health, Religion, and Culture*, 11 (1), pp53-65.

T. ap Siôn, Leslie J Francis, a Sylvia Baker (2008), 'The theological case for Christian schools in England and Wales: a qualitative perspective listening to the female alumnae', yn *Text and tables: quantitative, qualitative, and comparative perspectives in empirical theology*, Brill: Leiden, (yn y wasg).

L.J. Francis, M. Robbins, T. ap Siôn, C.A. Lewis, and P. Barnes, 'Psychological health and attitude toward Christianity among Protestant and Catholic sixth form pupils in Northern Ireland', *Pastoral Psychology*, (yn y wasg).

Adolygiadau o lyfrau:

Philip Clements-Jewery (2005), *Intercessory prayer: Modern theology, biblical teaching and philosophical thought*, Aldershot, UK, Ashgate, yn *Mental Health, Religion, and Culture*, 2008, 11 (1).